
# Newyddion Bethlehem

Gwaelod-y-garth

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Tachwedd 2017

# Yn y sedd gefn...



... ond yn amlach yn y 'ffrynt lein' – dau o Fethlehem sydd wedi cael sylw cenedlaethol yn ddiweddar, y naill am ei farddoniaeth a'r llall am ei nofel ddiweddaraf. Am hanes camp ddiweddaraf Martin Huws, Ffynnon Taf, trowch i **dudalen 2**. Mae hanes lansio cyhoeddiad diweddaraf Catrin Dafydd, Gwaelod-y-garth, ar **dudalen 5**.

## Newidiadau i drefn Oedfaon y Nadolig a'r Calan

**(Cofiwch am y newidiadau i'r patrwm arferol)**

Rhagfyr

3ydd - bore: Ymarfer y Plant
5.00 p.m. - Delwyn Sion (Cymun)
10fed - Bore (11.00): -Ymweld â Chartref Nyrsio - Danesbrook House, CF5 2QN
5.00 p.m. Oedfa Naw llith a Charol
17eg - Drama'r Geni. (10.30)
24ain - Oedfa Nadolig yr Aelodau (10.30)
25ain - Oedfa bore'r Nadolig (10.00)
31ain - Y Parchg. Dafydd Owen


Ionawr 2018

7fed - Delwyn Sion (Cymun)
14eg - Bore: Hefin Jones
5.00 p.m. Plygain

Rhodri Gwynn a Dirgelwch ...

## Ambaréls Bethlehem

Mae pobl Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn rhai da am wisgo'n addas ar gyfer pob tywydd er mwyn mynychu'r gwasanaethau.
Ond mae'n ymddangos eu bod hefyd â sawl ambarél yn barod ar gyfer glaw a hindda a'r merched o bosibl yn fwy na'r dynion yn ôl a welaf i.
Mi wn bod gan ambell un ambarél o liw llachar i herio'r tywydd mawr. Ambell un wedyn ag ambarél yn cario nod rhyw gwmni neu gilydd, ac un arall yn dynodi man gwaith neu hwyrach rodd wedi iddyn nhw fynychu cwrs hyfforddi, prynu car newydd ac yn y blaen.
Mi fûm yn pendroni ynglŷn a hyn y dydd o'r blaen o sylwi bod na ddwsin o ambaréls wedi eu gadael yn y capel dros y misoedd diwethaf yma!
Tybed pwy ydi'r perchnogion? A gan bod yna ddwsin ohonynt yna, meddyliais pa ambarél fyddai'n briodol i'r Disgyblion eu perchnogi petaent angen cysgodi rhag y tywydd mawr wrth Fôr Galilea. Pa un fyddai'n berchen



BMW tybed; pa un fyddai'n gweithio i Lywodraeth Cymru? Pa rai fyddai'n hoff o liwiau llachar, a pha rai y lliwiau tywyll? Pa un fyddai'n dymuno perchnogi yr un 'blastig gweld trwyddi', a pha un fyddai'n hoff o'r Genhinen Pedr?
Dwi ddim am fentro cyhoeddi fy nyfaliadau i, ond os ydych chi wedi colli ambarél, ac yn credu hwyrach eich bod wedi ei gadael yn y capel, cymerwch gip yng nghyntedd y Festri i weld os oes yna un gyfarwydd yn eich disgwyl.
Edrychwch yn fanwl ar y llun uchod rhag ofn!

RhGJ

Yn y rhifyn hwn:
✳ Newyddion ✳ Suliau ✳ Y Cwrdd Merched ✳
✳ Cefnogi Elusen ✳ Lluniau ✳

# Suliau – hyd Fawrth 2018

**Rhagfyr**
3 – bore: Ymarfer y Plant
5.00 p.m. – Delwyn Sion (Cymun)
10 - Bore: -Ymweld â Chartref Nyrsio
5.00 p.m. Naw llith a Charol
17 - Drama'r Geni.
24 - Oedfa Nadolig yr Aelodau
25 – Oedfa bore'r Nadolig
31 - Y Parchg. Dafydd Owen

**Ionawr 2018**
7 – Delwyn Sion (Cymun)
14 - Bore: Hefin Jones
5.00 p.m. Plygain
21 - Y Parchg. Robin Samuel
28 – Y Parchg. Robert Owen Griffiths

**Chwefror**
4 – Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
11 – Delwyn Sion
18 - Y Parchg. Lona Roberts
25 - Y Parchg. Hywel Wyn Richards

**Mawrth**
1 – Oedfa Dydd Gwyl Ddewi
4 - Gwasanaeth Gwyl Ddewi
11 - Y Parchg. Dyfrig Rees (Cymun)
18 – Delwyn Sion
25 – Oedfa Ardal Llandaf

**Manylion cyswllt yr Ysgrifennydd:**

**Rhodri-Gwynn Jones**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost (newydd):*** rhodrigj@btinternet.com

**Cadair Gŵyl y Gadair Ddu - o goed Gwlad Belg**

## PENLLANW BLWYDDYN O ENNILL CADEIRIAU I MARTIN





Rydyn ni wedi cyfeirio o'r blaen at rai o fuddugoliaethau Martin Huws, Ffynnon Taf, yn rhai o uchelwyliau eisteddfodol Cymru. Ond y tro hwn mae'r bardd a chyn-newyddiadurwr wedi coroni'i flwyddyn drwy gipio'r gadair gynigwyd i goffáu canmlwyddiant colli Hedd Wyn. Cafodd y Gadair ei chomisiynu gan Gymdeithasau Cymraeg Penbedw a Fflandrys, trefnyddion yr Ŵyl yn Ysgol Joseph Paxton, Penbedw, ac mae hi wedi ei chreu o hen drawstiau rheilffordd yng Ngwlad Belg. Fel gwelwch o'r llun uchod, yr Archdderwydd Geraint Llifon (Geraint Lloyd Owen) oedd yn llywio'r seremoni. Bu Martin ddigon caredig i ddyfynnu rhannau o'i waith yn ystod Oedfa Heddwch Bethlehem (dde) gan egluro fod y cerddi'n gyfres o lythyron dychmygol rhwng Hedd Wyn a'i gariad.

# De Affrig, Y Deml Heddwch a Masnach Deg



Cafwyd dechrau diddorol iawn i dymor y Cwrdd Merched ar Fedi 9ed, pan ddaeth Alun ein cyn Weinidog atom i sôn am ei daith fel cynrychiolydd yng Nghynhadledd Annibynwyr y Byd yn Ne Affrig ym mis Gorffennaf 2017. Mynd yr oedd gydag eraill i gefnogi'r Dr. Geraint Tudur ar ddiwedd ei gyfnod fel Llywydd Annibynwyr y Byd.

Cawsom ddisgrifiad bywiog a manwl o'r daith i'r Gynhadledd yn Stellenbosh yn nhalaith y Western Cape De Affrig, nepell o Cape Town. Soniodd Alun am y golygfeydd trawiadol, fel yr olygfa o Table Mountain a gorchudd o niwl drosto, fel lliain gwyn dros fwrdd y Cymun. Dau brofiad dwys iawn a gafodd oedd ymweld â Robben Island lle carcharwyd Nelson Mandela, a'r llall oedd gweld y tlodi affwysol yn nhrefgordd(township) Kayamandi. Roedd pwyslais y Gynhadledd ar ryddid yn ei wahanol ffyrdd, ac atgoffwyd y cynadleddwyr nad syniadau sy'n newid y byd ond yn hytrach pobl, pobl dan ddylanwad syniadau.

Diolchodd Rhian Huws, Llywydd ein cyfarfod, yn gynnes iawn i Alun am fynd a ni ar daith mor wahanol a diddorol, a chreu darluniau byw o'u holl brofiadau yn Ne Affrig. Diolchodd Rhian hefyd i Mary Edwards a Cath Edwards am baratoi'r Defosiwn ac i Eirlys Cerith am baratoi'r Paned.

Ar y 10ed o Hydref aeth criw bach o'r Cwrdd Merched ar ymweliad â'r Deml Heddwch ym Mharc Cathays. Rhoddodd Frank Holloway, ein tywysydd, arweiniad a gwybodaeth ddifyr iawn i ni, mewn acen Gymraeg ardal Llangollen! Soniodd am weledigaeth yr Arglwydd David Davies (1880-1944), ŵyr i'r diwydiannwr David Davies, Llandinam a brawd Gwendolen a Margaret. Ymgais oedd y Deml i adlewyrchu dau o ddiddordebau pennaf yr Arglwydd Davies sef "yr ymgyrch Gymreig yn erbyn y darfodedigaeth(TB) a'r groesgad dros heddwch ar ôl y Rhyfel Byd 1af. Mam a gollodd ei phlant yn y Rhyfel Byd 1af agorodd yr adeilad yn 1938. Mae'r adeilad hyd heddiw yn gartref i ddau sefydliad ag amcanion sy'n gysylltiedig â heddwch ac iechyd sef Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cawsom gyfle i ymweld â'r Crypt sydd o dan yr adeilad a lle cedwir Llyfr Cofio Cymru ers 1938.

Y Pensaer Percy Thomas gynlluniodd yr adeilad mewn arddull glasurol syml. Caiff y Brif Neuadd ei defnyddio'n aml ar gyfer nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol ac hefyd fel lleoliad i briodasau a gwleddoedd. Braint i ni oedd cael ein tywys o gwmpas yr adeilad hanesyddol hwn a sylweddoli unwaith eto mor ddylanwadol fu'r teulu Davies, Llandinam, ar hyd y blynyddoedd.

Buom lawr yn y ddinas ar ymweliad byr arall ar Hydref 24ain, taith siopa tro yma! Cawsom gyfle i weld yr holl gynnyrch Masnach Deg sydd ar gael yn Siop 'Fair Do's', Heol Llandaf, Treganna. Mae'r cynnyrch yn amrywiol iawn o fwydydd, dillad, cardiau cyfarch, teganau, tlysau a creiriau bach i'r cartref. Siop liwgar a chroesawgar iawn. Y flwyddyn nesa bydd y siop yn dathlu 20mlynedd o gyflwyno nwyddau Masnach Deg i drigolion Caerdydd. Gobeithio wir y bydd llawer ohonom yn manteisio ar y cyfle y Nadolig sy'n dod, i brynu nwyddau a chardiau sy'n cefnogi bywydau rhai llai ffodus na ni.

**Eirlys Davies, Radur**

## Gweithgareddau



***Bedydd Eirlys, merch Rhian a Mike, Yr Eglwys Newydd, ar Hydref 8fed.***



***Bedydd Guto Emlyn, mab Hywel ac Elin, Treganna, ar Hydref 15fed.***

Mewn rhifyn diweddar o 'Dechrau Canu Dechrau Canmol' gwelwyd rhai o aelodau Bethlehem, sef **Ian Hughes, Cerith ac Eirlys Davies ac Ann Lewis**, wrth eu gwaith yn gwneud te i'r Di-gartref yn y Tabernacl, Yr Ais.

[Fel gwyddoch, mae Ian yn gosod rhestr yn y fynedfa i gael enwau gwirfoddolwyr. Os gallwch chi gynnig help, torrwch eich enw ar y rhestr, os gwelwch yn dda.]

**************

*Hyfryd oedd gweld **Luned Clement (a'r teulu)** yn destun rhaglen **"Hyn o Fyd: Lle aeth pawb? 1989".** Yn sgil ail ymweld â Luned, sydd bellach yn byw yn Dubai, cawsom gip ar rai o selogion Bethlehem yn eu seddau ar gyfer oedfa foreol. Llawn mor ddiddorol oedd gweld y newid fu ar bopeth mewn 28 mlynedd – boed brifddinas, ffasiynau neu hyd yn oed liw gwalltiau!*

Cofiwch am ein gwefan:
www.bethlehem.cymru

## Newyddion



***Delwyn yn croesawu'r Dr Huw Edwards, y diweddaraf i ymuno â ni fel aelod – gan symud o'r Priordy, Caerfyrddin. A da gweld fod Dr Edwards yn gwella ac yn ôl yn ein plith wedi'r driniaeth ddiweddar ar ei glun.***



**Eilir Owen Griffiths, Ffynnon Taf, gyda'r cwpan i'r côr cymysg gorau ym Mhrifwyl Môn – ac o gwmpas ei wddf mae'r fedal ddyfarnwyd iddo am fod yr arweinydd gorau.**

**Llongyfarchiadau i'r canlynol:**

- **Wyn a Heulwen Jones**, Yr Eglwys Newydd, sydd bellach yn Dad-cu a Mamgu – ganed Greta Marged i Ieuan ac Angharad. Mae Wyn a Heulwen wedi symud tŷ hefyd – ond yn parhau i fyw yn yr Eglwys Newydd.
- Symud tŷ hefyd fu hanes **Delyth Evans,** Croes Cwrlwys - mae hi bellach yn Y Barri ond yn parhau i fynychu Bethlehem.
- **Stella Jones,** Yr Eglwys Newydd - mae dau o'r meibion, Geraint a Dylan, wedi priodi yn ystod yr haf. Hefyd mae Stella wedi dod yn Nain yn ddiweddar.
- **Dr. Elen Evans**, Yr Eglwys Newydd, sydd wedi ei phenodi'n Bediatrydd Cymunedol De Birmingham.
- **Caryl Griffiths**, Creigiau, ar gael Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysg yn ystod yr haf

## COLLI DILWYN



Bu gwasanaeth coffa **Dilwyn Jones**, Creigiau, ym Methlehem ar Dachwedd 25 ac estynnwn ein cofion a'n cydymdeimlad at ei briod, Marian, a'r plant, Richard, Sali ac Anna, a'u teuluoedd, yn eu galar. Gan ei fod yn fab i weinidog Wesle, roedd Dilwyn wedi symud yn gyson yn ystod ei blentyndod – o gyfnod ei eni yn Nhalysarn, Dyffryn Nantlle, i Flaenau Ffestiniog, Hen Golwyn, Bangor, Tregarth, ac yna'n ôl i Hen Golwyn. Ar ôl graddio o Brifysgol Cymru ym Mangor, bu'n athro ym Abergele cyn ymuno ag adran ysgolion y BBC yng Nghaerdydd i gynhyrchu rhaglenni addysgiadol. Wedi cyfnod fel un o gomisiynwyr rhaglenni cynnar S4C, sefydlodd gwmni cynhyrchu rhaglenni yn ardal Abertawe gyda'r Prifardd Dafydd Rowlands – y cwmni hwnnw ddaeth â direidi poblogaidd 'Licyris Olsorts' i'n sgriniau. Yng ngeiriau ei gyn-gydweithiwr Gwyn Cadnant Griffiths, yn y teyrngedau, roedd Dilwyn yn un oedd wedi gwneud "tyrn da o waith". Dyma gyfarchiad un arall o'r teyrngedwyr, Euryn Ogwen:

Ei wên firain gyfarwydd – a hoen ffrind
Ffraeth, a'i agosatrwydd;
Wylwn, ond rhannwn yn rhwydd
Wydriad o'i ddiniweidrwydd.

Anfonwn ein cofion at y rhai canlynol:

- **Vi Jones**, Pentyrch, sy'n cael gofal mewn cartref nyrsio.
- **Y Dr Glyn O. Phillips,** Radur, sydd adref o'r ysbyty bellach – a hefyd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn 90 mlwydd oed. Penblwydd hapus i chi!
- **Huw Llywelyn Davies**, Pentyrch, ar ôl iddo anafu ei droed.
- **Meira Ellis Owen**, Creigiau, sydd wedi colli ei brawd yng nghyfraith.

DEWCH I HELPU

**Gwasanaeth Carolau**

**yng Nghartref Nyrsio Danesbrook House**
Cadoc Place, (Danescourt) Caerdydd CF5 2QN
**Fore Sul Rhagfyr 10fed**
**am 11.00 a.m.**
*(Ymgynnull yno am* ***10.50****)*

## Dau fardd yn ein hoedfaon

Rydyn ni wedi cael cwmni dau enw cyfarwydd o blith cynganeddwyr gorau Cymru'n ddiweddar.





Daeth Karen Owen i lawr i arwain oedfa bob cam o Ddyffryn Nantlle. Ac wele, gyn-ysgrifennydd Bethlehem, Rhys Dafis, yn cymryd rhan yn yr oedfa Sul Heddwch – yntau ar ymweliad â ni o fro ei febyd, Llansannan.


## A fydd 'Gwales' yn eich hosan?



Gan ei bod yn un o blant Bethlehem, braf oedd croesawu ein hawdures leol amlycaf i oedfa ddiweddar – er mai yn y sedd gefn yr oedd hi. Lansiwyd 'Gwales' nofel ddiweddaraf Catrin Dafydd, Gwaelod-y-garth, mewn noson yn Radur i godi arian at gronfa Prifwyl Caerdydd 2018. Ar y noson roedd Catrin yn cael ei holi gan Catrin Beard gyda Cyril Jones, Pontypridd, yn darllen darnau o'r nofel. Wyndham Richards oedd y gŵr lwcus enillodd gopi o'r nofel mewn raffl ar y noson!

## *COFIWCH AM 'Y STORI' YN YR AIS*






Yn dilyn apêl Dafydd Griffiths, Salem, Treganna, (uchod) yn ystod ei ymweliad â ni, bydd rhai o aelodau Bethlehem yn cymryd rhan yn y cyflwyniad o **'Nadolig – Y Stori'** yn Nhabernacl, Yr Ais, eleni. Mae'r cyflwyniadau 20 munud o ddrama'r geni yn digwydd yn y capel rhwng Rhagfyr 1af a Rhagfyr 22ain – o 10.00 y bore hyd 2.00 neu 5.00 y pnawn (ond nid ar y Sul). I gael yr holl fanylion – ewch ar www.y-stori.org.uk – a chofiwch amdanyn nhw pan fyddwch yn mentro i ganol y brifddinas i siopa.

*(A da iawn ei weld yn ôl ar ôl ei driniaeth ddiweddar!)*



# Dreigiau -2  Wolves -2

“A Game of Two Halves” Pa mor aml ydyn ni 'di clywed y frawddeg yna tybed? Ac roedd e’n wir unwaith yn rhagor pan chwaraeodd Cymru’r Cryse Duon yn ddiweddar. Cymru’n rheoli’r hanner cyntaf, a’r Cryse Duon yr ail! A’r Cewri Du yn drech na’r Dreigiau Coch! Diolch byth, o’dd pethe’n wahanol nôl yn yr oes a fu pan faeddodd y Ddraig Goch y Ddraig Wen mewn ogof rhywle’n Eryri. Gwd Thing !

Chi’n gw'bod hanes y Dreigiau dwi’n siŵr, ond odych chi’n gw'bod hanes y Bleiddiaid? Na ? Wel, gwrandewch ar un o hanesion ein ddoe Ewropeaidd (Cyn Brexit) a allai effeithio ar ein hyfory.

“Poerodd Tad-cu y crwt bach i fflamau’r tân agored, cyn sugno eto ar ei bib, roedd yn amlwg bod rhywbeth yn ei boeni’n fawr.

“Be’ sy’n bod Dad-cu?” gofynnodd y bachgen.

“Wel, na’i weud tho ti,” medde’r hen ŵr yn ofalus. “Ma’ na frwydr ofnadw' yn digwydd y tu mewn i mi, brwydr rhwng dau flaidd! Ma’ un blaidd yn ddrwg, yn llawn casineb, dicter, balchder ac anoddefgarwch, tra bo’r llall, wel, ma’r llall yn llawn llawenydd, heddwch, cariad, caredigrwydd, gostyngeiddrwydd a thosturi.”

“O!” medde’r un bach,

“Ie, a ma’r frwydr hon yn mynd 'mlaen y tu fewn i ti 'fyd, a thu mewn i bawb o bobl y byd!”

Wel, o’dd y crwt bach ddim yn gw'bod beth i 'weud, drychodd mewn i fflame’r tân am sbel, yna cerddodd rownd y stafell, cyn gofyn o’r diwedd,

“Tad-cu, pa flaidd sy’n mynd i ennill y frwydr?”

Trodd yr hen ŵr ei ben yn ara' deg cyn dweud

“Yr un r’y ti’n ei fwydo 'machgen i, yr un r'y ti’n ei fwydo.”

Tybed yw Arlywyddion a Phenaethiaid gwledydd ein byd yn gyfarwydd a’r stori? A thybed a fydden nhw’n ei ddeall?

**O’r Cwrdd Diaconiaid**

# *NODIADAU RHODRI*

Dyma grynodeb byr o’r drafodaeth yn y Cwrdd Diaconiaid a gynhaliwyd ar y 23ain o Hydref 2017:-

- Cydnabuwyd gwaith Delwyn Sion fel Arweinydd, gan fynegi gwerthfawrogiad o’r modd y mae wedi ymateb i’r dasg, a nodi’r gefnogaeth y mae wedi ei derbyn gan y gynulleidfa.
- Yr Ysgol Sul:- Nodwyd gwerthfawrogiad o gefnogaeth ac ymwneud y rhieni ifanc, dan oruchwyliaeth Heulwen, a’r Ysgol Sul.
- Awgrymwyd y byddai’n briodol trefnu swper nos Sul rhywbryd cyn y Nadolig fel rhan o’r ymgyrch yr elusen.
- Yn sgil oedfa “Argraffiadau” aelodau Pentyrch ym mis Hydref, a chyflwyniad Judith Evans ar “Dlodi”, nodwyd bod nifer o’r gynulleidfa wedi mynegi awydd i weld a oedd yna gamau pendant y gellid eu cymryd ar ran yr eglwys i liniaru peth ar bryderon y gymdeithas sy’n byw ar stepen ein drws. Hefyd nodwyd y pwysigrwydd o drafod gyda’r asiantaethau perthnasol cyn cymryd unrhyw gam i gefnogi unigolion rhag amharu ar y gefnogaeth sydd eisoes ar gael iddynt.
- Gwefan y Capel – dylid annog y gynulleidfa i gynnig deunydd i’w gynnwys.
- Dathlu 150 yr adeilad – nodwyd fod awgrym wedi ei wneud gan Alwyn Harding Jones y dylid cynnwys arddangosfa weledol a sain fel rhan o’r dathliadau arfaethedig.
- Awgrymwyd y dylid gofyn am farn yr eglwys, mewn Cwrdd Eglwys yn y flwyddyn newydd, ar ychwanegu at y ddiaconiaeth.
- Dylid ystyried darparu te wedi’r oedfa pob Sul yn ystod mis Gorffennaf ac Awst pan fo’r ddwy eglwys yn cyd-addoli. [A hwyrach ystyried ychwanegu at y ddarpariaeth bresennol ar adegau eraill yn ystod gweddill y flwyddyn.]
- Nodwyd parodrwydd i fod o gymorth i blant hŷn yr eglwys, oedran Ysgol Uwchradd, gyda hyfforddiant ar faterion cymdeithasol o bwys e.e. gwaith Cymdeithas y Cymod.

***Apêl Rohingya***

# CYMORTH MEWN CYFYNGDER



Mae 'na argyfyngau a thrychinebau yn taro ein byd ni yn gyson, rhai ohonynt oherwydd difaterwch gwladwriaethau a llywodraethau, eraill oherwydd natur ansefydlog gwneuthuriad y blaned fechan hon yr ydym mor falch o'i galw'n gartref.

A phan ddigwydd argyfwng a thrychineb yn unrhyw ran o'r byd, daw galw am gymorth.

'Rydym yn gyfarwydd iawn a Chymorth Cristnogol, ac yn barod bob amser i gefnogi yr asiantaeth yma yn ei gwaith a'i chenadwri.

Mae Cymorth Cristnogol yn un o 13 o asiantaethau sy'n rhan o'r hyn a elwir yn "Disasters Emergency Committee" (DEC) [mae Plan International, Achub y Plant, Y Groes Goch, Cafod a Tearfund ymysg y gweddill].

Yn ei dro mae DEC yn rhan o gyfundrefn fyd eang sy'n cydlynu cymorth dyngarol ac yn gweithredu dan ambarél yr "Emergency Appeals Alliance" (EAA).

Fe fyddwch yn falch o gael y sicrwydd fod Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn eich enw, ar eich rhan, yn ymateb yn gyson i'r galwadau a ddaw oddi wrth yr asiantaethau cymorth am gyfraniadau brys, gan ddefnyddio, yn anad dim, unrhyw ad-daliad treth incwm a ddaw i'n rhan o flwyddyn i flwyddyn.

Yr ymgyrch ddiweddaraf i ddod ar ein gofyn oedd Apêl Argyfwng Rohingya, a hynny yn dilyn terfysg yn nhalaith Rakhine, Myanmar. Fe welsom ar ein sgriniau teledu y cannoedd o filoedd yn gorfod ffoi o'u cartrefi, 500 000 ohonynt yn croesi'r ffin i wlad dlawd Bangladesh, i osgoi'r lladd a'r llosgi, a hynny heb fwyd, diod, arian na lloches.

Cyfrannwyd £1000 i'r apêl hon, a byddai unrhyw rodd bersonol y dymunech ei gwneud yn cael ei hychwanegu at y swm hwn.

Byddwn yn ymateb yn yr un modd i apeliadau tebyg yn y dyfodol, gan obeithio eich bod yn gysurus eich meddwl a'ch cydwybod ynglŷn â threfniant o'r math.

**RhGJ**

◈ ◈ ◈ ◈ ◈ ◈ ◈ ◈

# Emyr a Cath yn dathlu

Bydd Cath ac Emyr Edwards, Llandaf, yn dathlu 60 mlynedd o briodas (priodas ddiemwnt) ar y 26ain o Ragfyr eleni. Dymuniadau da i'r ddau. Ar achlysur eu priodas yn 1957, ysgrifennodd tad Emyr, Y Prifardd J M Edwards, gadwyn o englynion i ddathlu'r achlysur. Mae nhw wedi eu cyhoeddi yn un o gyfrolau'r gyfres 'Bro a Bywyd: Beirdd y Mynydd Bach', cyfrol a olygwyd gan Emyr. Dyma i chi dri o'r wyth englyn:



I Catherine ac Emyr
ar achlysur eu priodas, Rhag. 26ain 1957.

Dan hud serch dau enaid sydd — yn uno
Yng ngwanwyn llawenydd;
Heulwen deg a lonno'u dydd,
Hedd cariad fyddo'u ceyrydd.

Da yw dydd rhodio deuddyn — i fro wen
Cyfrinach y rhwymyn;
A gwawried arnynt wedyn
Oriau gwell gloyw gwyn.


Heb awel lem a heb loes, — heb ei boen
Y bo byw hyd henoes!
Dyddiau hir a dedwydd oes
Fo'u rhan hyd yrfa'r einioes.




# Bethlehem yn oriel y 48!

Roedd cyfeiriad ar wefan yn ddiweddar at waith arlunydd o'r enw Lizzie Spikes, oedd yn enwi rhai o'r tai cwrdd a chapeli mae hi wedi eu cynnwys yn un o'i gweithiau. Yn wir, y mae Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn eu plith!

Dyma fe – ar y gongl isaf ar y chwith yn y llun cyflawn (isod) – drws nesaf i Horeb, Pentyrch (sydd bellach yn fwy cyfarwydd i ni fel 'Acapela'). Daw'r arlunydd, Lizzie Spikes, o Geredigion ond bu arddangosfa o'i gwaith mewn oriel yn Rhiwbeina'n ddiweddar.




(uchod) Dyma olwg ychydig fanylach ar y gongl isaf yna! 'Does yna ddim golwg o'r gatiau na'r waliau sydd o flaen Bethlehem, nac ychwaith y llwybr newydd sy'n arwain at ein drysau. Yn achos Horeb/Acapela – bellach mae yno waith arlunydd wedi ei baentio ar wyneb yr adeilad.

A rhag i ni anghofio rhai o garedigion dinas Caerdydd, gwell nodi fod capeli Pembroke Terrace a'r Tabernacl yn y darlun mawr hefyd!



# *Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

*i holl aelodau a chyfeillion*

*BETHLEHEM*

*Ymunwch â ni yn yr oedfaon dros gyfnod y Nadolig a'r Calan*

(manylion ar y dudalen flaen)

**Dyma i chi gast Y Ddrama Nadolig 2017 - 10 mlynedd yn ôl:**



*(ymddiheuriadau fod y llun braidd yn aneglur – daeth tro ar fyd yn ein technolegau digidol!)*